------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 4 Hydref 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 92(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**

**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**: Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o'r cyhoeddiad y bydd Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn colli contractau gyda Jaguar Land Rover ar ôl 2020?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Cyflwyno Bil a gynigir gan Bwyllgor – Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

(30 munud)

## 6 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6509**

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)
David Melding (Canol De Cymru)
Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr angen i liniaru cynhesu byd eang a chefnogi cytundeb Paris o'r 21ain gynhadledd o'r partïon ('Cytundeb Paris') drwy dorri allyriadau carbon a nodi bod hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2. Yn nodi bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i hymgorffori yng ngwaith y Cynulliad gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwil pellach i ddichonoldeb cynllun peilot cyfrifon carbon personol yng Nghymru.

'Paris Accord of the 21st Conference of the Parties ('Paris Agreement')' (Saesneg yn unig)

'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'

'Deddf Llywodraeth Cymru 1998' (Saesneg yn unig)

## 7 Dadl ar adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 'Gwireddu'r Uchelgais – Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru'

(60 munud)

**NDM6518** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar ei 'Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mai 2017.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 11 Gorffennaf 2017.

## 8 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6520** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod prinder meddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn peri risgiau i ddiogelwch cleifion a'r gallu i gyflenwi gwasanaethau'n ddiogel.

2. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i weithredu cynllun gweithlu effeithiol a chynaliadwy ar gyfer GIG Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi'r effaith y gall prinder meddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ei chael ar ddarparu gwasanaethau.

2. Yn croesawu ymrwymiad holl staff GIG Cymru i ddarparu gofal iechyd tosturiol o safon uchel.

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori â sectorau perthnasol i sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn digwydd mewn modd cydlynol.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6519** Lee Waters (Llanelli)

M4 sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Hydref 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 27 Medi 2017 i'w hateb ar 4 Hydref 2017

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw Llefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am addysg feddygol yng ngogledd Cymru? (OAQ51097**W**)

**2.** David Melding (Canol De Cymru): Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o'r effaith y bydd cynyddu cyfranogiad rhieni yn ei chael ar lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion? (OAQ51127)

**3.** Leanne Wood (Rhondda): A yw Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r egwyddor o addysg am ddim i bawb? (OAQ51130)
**TYNNWYD YN ÔL**

**4.** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am les disgyblion mewn addysg? (OAQ51106**W**)

**5.** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth? (OAQ51118**W**)

**6.** Neil McEvoy (Canol De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gyflawni targed Llywodraeth Cymru o un filiwn o siaradwyr Cymraeg drwy'r system addysg? (OAQ51112)

**7.** Darren Millar (Gorllewin Clwyd): Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod cefnogaeth ddigonol ar gael i ddisgyblion sy'n wynebu neu'n profi digartrefedd? (OAQ51093)

**8.** Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i leihau beichiau diangen ar athrawon? (OAQ51109)

**9.** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer yr ysgolion sy'n addysgu sgiliau achub bywyd? (OAQ51092)

**10.** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynyddu'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngorllewin De Cymru? (OAQ51090)

**11.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am nifer yr ymgeiswyr TGAU ym mlwyddyn 10 a blwyddyn 11? (OAQ51088)

**12.** Vikki Howells (Cwm Cynon): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y clybiau hwyl a chinio gwyliau ysgol a gynhaliwyd yr haf hwn? (OAQ51104)

**13.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi datblygu addysg filfeddygaeth? (OAQ51124)

**14.** Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y gwerth y mae prifysgolion yn Lloegr yn ei roi ar fagloriaeth Cymru? (OAQ51094)

**15.** David Rowlands (Dwyrain De Cymru): Sut y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn mesur llwyddiant cynllun gweithredu 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl'? (OAQ51117)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

**1.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa gamau y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i wella gwasanaethau i bobl â phroblemau sy'n effeithio ar y bledren a'r coluddyn yng Nghymru dros y 12 mis nesaf? (OAQ51099)

**2.** Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel awdurdod iechyd arbennig? (OAQ51095)

**3.** David Melding (Canol De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y ddarpariaeth o wasanaethau GIG i bobl fyddar yng Nghanol De Cymru? (OAQ51128) **TYNNWYD YN ÔL**

**4.** Lee Waters (Llanelli): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ymrwymo i adolygu strwythurau llywodraethu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru? (OAQ51096)

**5.** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet egluro pa wasanaethau sydd ar gael yng Nghymru ar gyfer mamau sy'n dioddef anafiadau i sffincter yr anws wrth roi genedigaeth? (OAQ51126)

**6.** Jeremy Miles (Castell-nedd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio technoleg gynorthwyol ddatblygol mewn gofal cymdeithasol? (OAQ51105)

**7.** Gareth Bennett (Canol De Cymru): Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r risg o niwed i blant a phobl ifanc drwy chwarae chwaraeon cyswllt fel rygbi? (OAQ51113)

**8.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): Beth yw blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru? (OAQ51089)

**9.** Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wasanaethau iechyd rhywiol? (OAQ51107**W**)

**10.** Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru? (OAQ51129)

**11.** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o effaith taclo a sgrymio mewn rygbi ar iechyd? (OAQ51123**W**)

**12.** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru): Pa gynlluniau sydd gan Ysgrifennydd y Cabinet i adolygu strwythurau llywodraethu yn y GIG? (OAQ51102)

**13.** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynllun strategol pum mlynedd Gofal Cymdeithasol Cymru? (OAQ51110)

**14.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa gamau y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i wella gwasanaethau ar gyfer cleifion canser yng Nghymru yn y 12 mis nesaf? (OAQ51098)

**15.** David Rees (Aberafan): Pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau unrhyw ymgynghoriad ar y newidiadau i ffiniau Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf? (OAQ51120)